# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 11 Chwefror 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Rhys Jones – **Is** Gadeirydd
Philip Roberts
Nia Jones
Catherine Hughes
Wyn Davies
Gareth Roberts
Dafydd Ll Williams
Tesni Wyn Jones
Einir Lewis
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – Neb yn ymddiheuro

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cadarnhawyd cofnodion 14 Ionawr 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Einir Lewis ac eilwyd gan yr Is Gadeirydd Cynghorydd Rhys Jones.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**
Doedd dim ymateb i ohebiaeth.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Ionawr 2021 i 3 Chwefror 2021 yn gywir yn y swm o £2128.16.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.99 | Siec rhif 200610 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £27.80 | Siec rhif 200611 |
| Bacstal chwarter i 30/6/2020 a chwarter i 30/9/20 | £250.80 | Siec rhif 200612 |

Derbyniwyd **anfoneb** gan Bacstal, gwasanaeth cyflogau a penderfynwyd talu yn y cyfarfod.

Roedd **anfoneb** wedi ei derbyn gan Awdit Cymru a penderfynwyd gohirio talu hyd at y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

**Torri Mynwent Llanfihangel**
Derbyniwyd dau bris am dorri y fynwent yn Llanfihangel a penderfynwyd derbyn pris S Arnott & F Jones yn y swm o £390. Gofynwyd i'r clarc drefnu hyn.

**5. Materion Cynllunio**
Doedd dim cais cynllunio gerbron.

**6. Datgan Diddordeb**
Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**7. Materion er Gwybodaeth**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **Unrhyw fater arall**

**Coeden Nadolig yn y pentref**
Erbyn y cyfarfod yma datganodd y Cadeirydd bod y goeden Nadolig wedi ei phlannu yn Winllan Bach yn Rhydyclafdy a diolchodd i bawb wnaeth .
Mae wedi cymeryd ei lle yn daclus iawn.

**Defibrillator**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chael peiriant defibrillator yn ardal Boduan a Cheidio a'r lleoliadau i'w gosod. Cafodd amryw o safleoedd eu cynnig megis tŷ drws nesaf i'r hen swyddfa bost, Eglwys Boduan, Garden Cottage safle carafanau Plasyngheidio a Chapel Ceidio.
Penderfynwyd unwaith eto gohirio hyd at y cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.

**Tan y Graig, Boduan**
Datganodd y Cynghorydd Anwen Davies bod "*cones*" wedi eu lleoli ger darn o'r wal yn Tan y Graig Boduan oherwydd bod y cerrig yn disgyn i'r brifffordd a bod bwriad gan Gyngor Gwynedd i ofyn i'r tir feddiannwyr dynnu y waliau i lawr ac ail godi ychydig i mewn o'r lôn.

**Nant Gledryd**
Derbyniwyd cwyn yn y cyfarfod bod sbwriel wedi ei adael yn ardal Nant Gledryd. Gofynwyd i'r clarc yrru llythyr i'r adran berthnasol.

**Materion Ffyrdd**
**Nant Pwdin i Ffatri Nanhoron**
Gofynwyd i'r clarc yrru llythyr i Adran Priffyrdd i ddweud bod dŵr ar y lôn rhwng Nant Pwdin a Ffatri Nanhoron.

**Lôn Llyn, Boduan**
Derbyniwyd cwyn bod angen torri rhywfaint o goed rhododendron sydd yn gordyfu ar ochrau y lôn. Gofynwyd i'r clarc yrru llythyr i'r adran briffyrdd.

**Lôn Rhydyclafdy i Llanbedrog**
Derbyniwyd cwyn bod twll yn y lôn cyn Penrhynydyn i gyfeiriad Llanbedrog. Gofynwyd i’r clarc yrru llythyr i’r Adran Briffyrdd.

**Capel Salem, Pwllheli**
Codwyd pryder yn y cyfarfod heno ynglŷn â bwriad i addasu’r Capel yn fflatiau i bobl digartref. Mae dau westy ym Mhwllheli eisoes yn cael ei ddefnyddio i’r un pwrpas. Mae Capel Salem yng ngwaelod allt llwybr cerdded myfyrwyr ifanc sydd yn mynychu Coleg Meirion Dwyfor.

Gofynwyd i’r clarc ysgrifennu llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i ddatgan pryder.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Mawrth 2021 drwy gyfrwng **ZOOM.**